# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Andrea Lewis | Adran Etholiadol: | Treforys |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau (hyd at 31.08.15)<br>Aelod y Cabinet – Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf (o 01.09.15) |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

<u>Cyflwyno Cynlluniau ar draws Treforys</u> - Fe wnaethom gyflwyno nifer o gynlluniau ar draws y ward, gan wrando ar eich ceisiadau, eich pryderon a'ch materion, gan gynnwys y canlynol:-

- Blodau gwyllt ac arddangosfeydd blodau ar draws y ward;
- Llawr caled a chyflenwi a gosod cysgodfan bws newydd ar Glôs Llanllienwen;
- Ariannu cyflenwi a gosod goleuadau Nadolig ar Stryd Woodfield a threfnu digwyddiad cynnau'r goleuadau Nadolig ar gyfer 2015;
- Bin baw cŵn ar Heol Mynydd Gelliwastad;
- Ailwampio a gosod sedd ar Stryd Woodfield;
- Llinellau melyn ar Heol Christopher, Stryd Springfield (Cilgant Trem Tawe a Stryd Penrhys);
- Gosod colofn oleuo stryd newydd ar Stryd Banwell Isaf;
- Parcio preswylwyr ar Stryd Wychtree.

Gwnaed gwaith hefyd i ddatblygu'r cynlluniau canlynol i'w cyflwyno yn 2016/17:-

- Problemau parcio ger siopau Cwmrhydyceirw - Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar gyfer y ffordd gyswllt rhwng Heol Chemical a Heol Dyfan, gan symud y rhwystr i greu mwy o le parcio a llinellau melyn i'w gosod ar waelod y lôn fynediad ar gyfer Teras Great Western;
- Cyflenwi a gosod cysgodfan bws yn Heol Clydach, Ynystawe;
- Gosod croesfannau heb eu rheoli (cyrbau is) wrth gyffordd Heol y Deri a Heol Chemical a chyffordd Heol Maes y Gwernen a Heol Cwmrhydyceirw i wella mynediad i'r cyhoedd.

<u>Mynd i'r afael â sylweddau seicoweithredol newydd (a adwaenir hefyd fel anterthau cyfreithlon)</u>

Fe wnaeth yr ymgyrchu a'r camau a gymerwyd gennym, Cynghorwyr Treforys, ynghylch pryderon a godwyd gan breswylwyr lleol ynghylch gwerthu anterthau cyfreithlon, gan gydweithio'n agos â'n Tîm Safonau Masnach a Heddlu De Cymru, arwain at lwyddo i erlyn ac arestio'r perchennog siop tramgwyddus. Hefyd, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan i gyflwyno deddfwriaeth sy'n gwahardd gwerthu'r cynnyrch gwenwynig hwn ac mae'n bleser gennyf ddweud bod y ddeddfwriaeth hon bellach mewn grym, gan wneud unrhyw werthiant o'r cynnyrch hwn ar ein strydoedd mawr yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i amddiffyn ein pobl ifanc yn Nhreforys ac, yn wir, ar draws y ddinas a'r sir.

Fe wnaethom weithio'n agos gyda'r heddlu i helpu i ddatrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Stryd Woodfield a mynd i nifer o gyfarfodydd â masnachwyr lleol i helpu i ddatrys y broblem hon.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 10 | / | 14 | 71 | % |
| Cabinet | 9 | / | 11 | 82 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Y Cyngor | 16 | / | 18 | 89 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 2 | / | 5 | 40 | % |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Pwyllgor Cynllunio | 9 | / | 10 | 90 | % |
| **CYFFREDINOL** | **51** | **/** | **68** | 75 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **0** | **/** | **1** | **0** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Ddechrau'r flwyddyn ddinesig 2015 - 2016, fi oedd Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau tan fis Medi 2015 pan gefais ddyrchafiad i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf.

Mae cyfrifoldebau fy mhortffolio Cabinet yn cynnwys:-
Rheoli Tai'r Cyngor; Atgyweiriadau Tai'r Cyngor; Polisi Tai, Tai Fforddiadwy ac Opsiynau Tai; Cynlluniau Adnewyddu Tai; Adnewyddu ac Addasu Tai;
Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC); Nodi Modelau Masnachol Newydd a'u Rhoi ar Waith; Creu Incwm o Fodelau Masnachol Newydd; Cynlluniau Cyllideb Ddirprwyedig Cynghorwyr; Fframweithiau i Wella Caffael; Cynlluniau Ynni; Bargen Ddinesig (Cyswllt â Menter, Datblygu ac Adfywio); Cynlluniau Gwresogi Ardal; Tai Lloches (Cyswllt ag Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn); Rhaglen Adeiladu Ysgolion - Addysg o Safon (AoS) 2020; Elfen Arweiniol Abertawe Gynaliadwy

Ers dechrau yn y swydd ym mis Medi, rwyf wedi bod yn gweithio'n helaeth ar feysydd cyflwyno yn fy mhortffolio. Oherwydd newidiadau yng nghymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, rydym wedi gallu dychwelyd i adeiladu tai'r cyngor am y tro cyntaf ers dros 3 degawd. Mae cryn dipyn o waith eisoes wedi'i wneud i nodi dau safle peilot a symud ymlaen gyda'r datblygiadau newydd, a fydd yn cael eu hadeiladu'n unol â gofynion trwyddedu Passivhaus, gan leihau biliau i denantiaid y cyngor. Mae cynnydd sylweddol hefyd wedi'i wneud gyda'r Cynllun Strategol Mwy o Gartrefi a fydd yn helpu i lywio sut rydym yn datblygu safleoedd y cyngor yn y dyfodol i helpu i gyflwyno mwy o dai yn Abertawe i helpu i ddiwallu'r galw cynyddol a chynorthwyo hefyd gyda'r diffyg mewn tai fforddiadwy. Mae manteision sylweddol yn gysylltiedig â'r Rhaglen Adeiladu Tai gyda chreu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant. Rwy'n gweithio ar ddatblygu'n Strategaeth Brentisiaethau Gorfforaethol. Roeddwn yn cynrychioli'r cyngor ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac yn mynd i sawl cyfarfod yng Nghaerdydd a chyfarfodydd rheolaidd fel Cyfarwyddwr Bay Leisure Cyf.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Digwyddiad Cynnau Goleuadau Nadolig 2015 - Gweithiodd cynghorwyr Treforys gyda'i gilydd i drefnu a chyflwyno ail ddigwyddiad cynnau'r goleuadau Nadolig yn Nhreforys a oedd yn llwyddiant ysgubol eto. Diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o sicrhau llwyddiant y digwyddiad hwn a diolch yn arbennig i Gymunedau'n Gyntaf am eu cefnogaeth gyda'r orymdaith llusernau, y Tabernacl, Treforys, am ganiatáu i ni ddefnyddio'i adeilad, Kevin Johns am gyflwyno a hefyd The Wave am y cyfraniad cadarnhaol iawn, corau Ysgol Gynradd Treforys am eu perfformiadau ardderchog a hefyd yr heddlu a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am helpu Siôn Corn gyda phroblemau trafnidiaeth.

Arddangosfeydd blodau - Fy nghydweithwyr ward a minnau a drefnodd yr arddangosfeydd blodau a blodau gwyllt helaeth trwy gydol Ward Treforys ac mae'n bleser gennyf ddweud y bydd y cynllun eleni'n fwy ac yn well gan ychwanegu blodau ar reiliau'r Tabernacl, Treforys, Eglwys Dewi Sant a chyferbyn ag Ysgol Gynradd Ynystawe, ynghyd â'r blodau gwyllt a'r cynlluniau blodau yr ydych wedi'u gweld yn y blynyddoedd blaenorol.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r hyfforddiant canlynol:
13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ymdriniais â nifer mawr o faterion ward ar ran preswylwyr Treforys, gan gynnwys tipio anghyfreithlon, parcio, tai a phryderon amrywiol eraill.

Cynhaliais gymorthfeydd cynghorydd, ar sail rota, gyda'm cydweithwyr ward, yn Llyfrgell Treforys, bob bore Sadwrn o 10am tan 12 ganol dydd. Hefyd, cynhaliais gymorthfeydd yn y neuadd goffa, Cwmrhydyceirw, yn rheolaidd.

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn aelod o fwrdd y neuadd goffa. Euthum i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'n Gyntaf (PACT) a chyfarfodydd Cymdeithas Preswylwyr Stryd y Farchnad.

Euthum i gyfarfodydd fel llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Pentre'r Graig ac Ysgol Gynradd Treforys. Ar hyn o bryd, rwy'n llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Treforys ac Ysgol Gynradd Treforys. Euthum i gyfarfodydd Gweithrediaeth a Grŵp Llafur rheolaidd. Roeddwn ac rwy'n parhau i fod yn Ysgrifennydd Grŵp Llafur Dinas a Sir Abertawe.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau - £22,000 (hyd at 31 Awst 2015)
Cyflog Uwch: Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf - £32,000 (o 1 Medi 2015)
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 18.05.2016 |